# Ymgynghoriad ar ganllaw anstatudol yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

| **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad** | Eich enw: Hywel Iorwerth<br><br>Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg<br><br>e-bost/rhif ffôn: hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru<br><br>Eich cyfeiriad: |
|---|---|

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **26 Mawrth 2021** i:

Ymgynghoriad ar ganllaw anstatudol yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol:**

Heb unrhyw amheuaeth mae angen adolygu'r polisi, a hynny yn bennaf oherwydd:

- Nid yw'r categorïau presennol yn eglur i rieni a disgyblion
- Nid yw'r fframwaith yn hwyluso cynllunio ieithyddol ar lefel awdurdod lleol nac yn genedlaethol
- Nid yw'r fframwaith yn cael ei ddehongli yn gyson a chywir, a does dim trefn monitro gadarn mewn lle er mwyn sicrhau atebolrwydd
- Nid yw'r categorïau ar sail statudol, a dyma ran o'r rheswm pam fod anghysondeb o ran dehongli a defnyddio'r categorïau, a pham nad oes trefn fonitro ac atebolrwydd cadarn.

Mae cael polisi categoreiddio ysgolion sy'n mynd i'r afael â'r diffygion uchod yn hollbwysig er mwyn hwyluso gweddill strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth, yn enwedig mewn perthynas â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

**Cwestiwn 2** – A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

**Trefn anstatudol a diffyg eglurder o ran monitro ac atebolrwydd**

Rydym yn cydnabod nad mater hawdd yw gosod trefn ar gategorïau ieithyddol ysgolion. Credwn bod yna agweddau cadarnhaol iawn i'r cynigion dan sylw, ac mae'n hawdd gweld sut gallasai'r newidiadau annog ysgolion i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynigion ar gyfer ysgolion cynradd yn gadarnhaol, ac yn debygol o annog ysgolion i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn anffodus, rydym hefyd o'r farn bod y newidiadau ar gyfer y sector uwchradd yn cyflwyno risg sylweddol y bydd ysgolion yn llithro i'r cyfeiriad arall. Er y gallwn weld y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd, credwn y gallasai'r penderfyniad i ddiffinio ysgolion

uwchradd ar sail mewnbwn ac allbwn (a throthwyon canrannau ar gyfer y newidynnau hyn) greu mwy o broblemau nag y mae'n eu datrys. Yn wir credwn bod perygl i'r cam hwn danseilio'r cynnydd sylweddol sydd eisoes wedi'i wneud o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyn mynd ymlaen i drafod ein pryderon ynghylch y categorïau uwchradd, mae angen tynnu sylw at ddau ffactor arall sy'n debygol o effeithio llwyddiant unrhyw drefn gategoreiddio, sef sail gyfreithiol y categorïau, a threfniadau monitro ac atebolrwydd.

Maen siomedig mai trefn anstatudol sy'n cael ei gynnig yma. Un o'r prif resymau dros ddiwygio'r categorïau yn y lle cyntaf oedd er mwyn cael trefn statudol. Mae'r adroddiad annibynnol ar ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gwbl eglur o bwysigrwydd cael trefn statudol. Cafodd yr holl ddogfen honno, a'r cynigion sydd ynddi, eu llunio ar sail y rhagdybiaeth y byddai trefn statudol. Mae'r ffaith mae trefn anstatudol sy'n cael ei chynnig yma yn tanseilio i raddau helaeth holl bwrpas y gwaith o ddiwygio'r categorïau. Mae hefyd yn ychwanegu at y tensiwn sy'n bodoli rhwng dyletswyddau awdurdodau lleol o ran categoreiddio ieithyddol, a dyletswyddau sydd bellach ar ysgolion o ran llunio cwricwlwm. Bu methu cyfle drwy Fil y Cwricwlwm i gydlynu categorïau ieithyddol a'r dyletswyddau sydd ar ysgolion i lunio cwricwlwm o safbwynt addysgu'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir mai un o brif ddiffygion y drefn gyfredol yw bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn camddehongli categorïau, ac nad yw'r categorïau yn cael eu defnyddio yn gywir. Er hyn, does dim byd yn y ddogfen sy'n egluro sut bydd y drefn newydd yn well o safbwynt monitro ac atebolrwydd. Mae angen llawer mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau monitro ac atebolrwydd a swyddogaeth cyrff perthnasol eraill megis consortia rhanbarthol ac Estyn. Mae'r ffaith nad oes llawer o fanylder ar hyn, ynghyd â statws anstatudol y canllawiau, yn destun pryder. Y risg yw y bydd methiannau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd, a bod awdurdodau lleol ac ysgolion â rhwydd hynt i ddehongli a defnyddio'r categorïau yn mewn ffyrdd anghywir ac anghyson.

Mae'r ddau ffactor uchod yn gwbl allweddol i unrhyw drefn categoreiddio ieithyddol ysgolion, a heb fynd i'r afael a'r materion hyn nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cynnydd yn nhermau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion Cymru.

**Pryderon ynghylch y cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd**

Nid oes datrysiadau hawdd ar gyfer cymhlethdod y sector uwchradd yng Nghymru, ond rydym yn meddwl bod angen ail-ystyried y categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae tri prif rheswm dros hyn:

1. Diffiniadau rhy wan ac amwys ar gyfer categori 2 a 3 uwchradd

Mae'r penderfyniad i ddiffinio ysgolion uwchradd ar sail mewnbwn ac allbwn yn un diddorol, a gallwn ddeall pam bod hyn wedi cael ei ystyried. Yn gyntaf, mae yn un ffordd o annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth, a hefyd annog disgyblion i fanteisio ar y ddarpariaeth. Yn bwysicach efallai, mae'n un ffordd o ddelio â'r ystod hynod eang

o ysgolion sydd â phatrymau ieithyddol amrywiol sy’n bodoli yng Nghymru. Hynny yw, mae’n galluogi categoreiddio amryw o ysgolion 2a ar hyn o bryd fel ysgolion cyfrwng Cymraeg, a hefyd i gategoreiddio ysgolion dwy ffrwd ar hyn o bryd fel rhai dwyieithog. Mae hefyd yn ffordd o ddelio â’r amrywiol ysgolion sy’n bodoli rhwng y categorïau Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg.

Er ein bod yn gweld bod rhai manteision i ddiffinio ar sail mewnbwn ac allbwn credwn ei fod hefyd yn cyflwyno llu o broblemau difrifol. Un o’r problemau hyn yw ei fod yn arwain at gategorïau 2 a 3 sydd yn hynod wan ac amwys. Rydym yn deall ac yn cytuno a’r dyhead i gynnwys mwy o ysgolion 2a (ac o bosib 2b) yng nghategori 3, ond ni ddylai hyn gael ei gyflawni ar draul y cysyniad o addysg cyfrwng Cymraeg.

Er enghraifft, mae categori 2 uwchradd yn gofyn i ysgolion gynnig o leiaf 40% o bynciau yn y Gymraeg. Bydd hefyd raid i o leiaf 40% o ddysgwyr ddewis astudio 3 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn gymryd fel enghraifft fod disgyblion, ar gyfartaledd, yn astudio tua 10 pwnc, ac felly bod 3 phwnc yn cyfateb i tua 30% o’r cwricwlwm cyfan. Byddai hyn yn golygu bod 40% o ddisgyblion yn astudio 30% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai’r 40% o ddisgyblion hyn yn astudio gweddill y cwricwlwm (70%) drwy gyfrwng y Saesneg. Byddai’r 60% yn weddill o ddisgyblion yr ysgol yn astudio llai na 3 phwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, ac o bosib yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.  Ar lefel ysgol, gallasai hyn olygu bod 88% o weithgareddau addysgu’r ysgol yn digwydd drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae ysgol categori 3 yn cael ei diffinio fel ysgol sy’n cynnig o leiaf 70% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd rhaid i o leiaf 70% o ddisgyblion astudio 5 pwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen pwysleisio yma, nad yw’r diffiniad yn nodi bod angen i 70% o’r pynciau fod drwy gyfrwng y Gymraeg **yn unig**. Mae’r diffiniad yn datgan y bydd modd i hyd at 30% o ddisgyblion yr ysgol wneud llai na 5 pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, a byddai hyn ond yn bosib mewn sefyllfa lle mae cyfran helaeth o’r cwricwlwm ar gael drwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal. Ar lefel ysgol gall hyn olygu bod cyn lleied â 35% o weithgareddau addysgu’r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hynny yw, byddai 70% o ddisgyblion yn cael hanner eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a’r gweddill yn Saesneg. Byddai’r 30% yn weddill o ddisgyblion yn gwneud llai na hanner eu cwricwlwm yn y Gymraeg, ac o bosib dim o gwbl.

Er bod yr enghreifftiau uchod yn rhai eithafol efallai, maent yn dangos yn glir fod categorïau 2 a 3 yn caniatáu i gyfran sylweddol iawn o’r dysgu ar lefel ysgol gyfan fod drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hefyd yn dangos beth yw’r gwaelodlin ar gyfer y categorïau hyn, a’r hyn a allasai ddigwydd o bosibl pe byddai llithro yn ôl o fewn ysgolion. Dyw’r disgrifiadau a’r meini prawf ar gyfer categori 3 ddim yn cyd-fynd a’r cysyniad o ysgol neu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae angen diffiniad llawer cryfach ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg sy’n gwarchod ac annog ysgolion sy’n darparu mwyafrif helaeth y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Drwy gyflwyno categori cyfrwng Cymraeg llawer cryfach, bydd fel canlyniad angen diwygio categori 2. Mae’r categori fel mae’n sefyll yn llawer rhy eang ac amwys, ac yn hytrach nag annog ysgolion dwyieithog i ddarparu rhagor drwy gyfrwng y Gymraeg, mae peryg mai’r gwrthwyneb fyddai’n digwydd. Yr opsiynau amlwg yw naill ai cynnwys mwy o gategorïau, neu dilyn trefn debyg i’r un sy’n cael ei gynnig ar gyfer ysgolion cynradd.

Rydym yn ymhelaethu ar y materion hyn yn ein hymatebion isod, yn enwedig mewn ymateb i gwestiwn 8.

2. Yr egwyddor o beidio llithro am yn ôl

Un o egwyddorion creiddiol y drefn sy'n cael ei chynnig yw na ddylai ysgolion fedru cynnig llai o ddarpariaeth Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol. Er ein bod yn croesawu'r egwyddor, nid ydym wedi ein hargyhoeddi fod yr egwyddor yn un all gael ei gweithredu yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn y fframwaith sydd wedi cael ei gynnig ar gyfer ysgolion uwchradd, lle mae'r diffiniad yn seiliedig ar fewnbwn ac allbwn.

Yn gyntaf, nid yw'n glir i ba raddau y gellir gorfodi egwyddor sydd yn rhan o drefniadau anstatudol. Er bod Atodlen 2 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar newidiadau rheoledig yn berthnasol yma, ni fyddai hyn o reidrwydd yn atal rhag llithro am yn ôl. Yn hytrach mae'n gosod trefn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau o'r fath.

Hyd yn oed os yw Atodlen 2 y Ddeddf yn amddiffyn rhywfaint rhag llithro yn ôl, mae'n ymddangos i ni y byddai hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn unig (y mewnbwn yn hytrach na'r allbwn). Oni bai am ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, nid yw tabl 2 yn Atodlen 2 yn cynnig unrhyw fath o amddiffynfa rhag bod ysgolion yn llithro yn ôl yn nhermau canran y disgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (yr allbwn). O astudio Tabl 2 yn Atodlen y Ddeddf yn ofalus, mae'n ymddangos i ni y byddai mwyafrif ysgolion categori 2a, b a c ar hyn o bryd, yn gallu lleihau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sylweddol, a does dim yn yr atodlen sy'n gwarchod rhag llithro am yn ôl o ran niferoedd y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth (gweler cofnod/rhes 1 Tabl 2, ac o bosib i rhai ysgolion cofnod/rhes 3 y tabl sy'n berthnasol).

Un o ganlyniadau anfwriadol y cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd yw'r risg y bydd nifer sylweddol o ysgolion uwchradd dwy ffrwd a dwyieithog (yn enwedig ysgolion 2a sydd i bob pwrpas yn ystyried eu hunain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd) yn llithro am yn ôl, a hynny oherwydd y symud at ffurfioli'r syniad o fewnbwn/allbwn a rhoi dewis i ddisgyblion. Mae natur diffiniadau ysgolion uwchradd (mewnbwn ac allbwn) yn agor y drws i sefyllfa lle bydd y cwestiwn o 'lithro yn ôl' wastad yn ddibynnol ar ddewisiadau disgyblion, ac felly i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth ysgolion. Mae'r drefn mewnbwn ac allbwn o reidrwydd yn cyflwyno'r posibilrwydd o lithro nol, ac yn ei hanfod yn fframwaith ansefydlog.

Rydym yn rhagweld y posibilrwydd y bydd hyn yn arwain at broblemau yn nhermau dilyniant addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy ffurfioli'r syniad o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mae peryg gwirioneddol y bydd hyn yn cychwyn ar lithro am yn ôl. Gallwn ragweld hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dymuno astudio pynciau drwy gyfrwng y Saesneg wrth nesáu at gyfnod allweddol 4, a bydd hyn yn ei dro yn rhoi pwysau ar ysgolion o ran eu gallu i gynnal darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn wir i raddau gyda'r drefn bresennol, ond mae'r cynigion ar gyfer yr uwchradd yn gwaethygu'r problemau hyn yn hytrach nag yn eu datrys.

Mae’n wir y bydd dewisiadau unigol rhieni a disgyblion wastad yn ffactor waeth beth fyddai'r drefn o ran diffinio ysgolion, ond credwn fod y drefn sy’n cael ei chynnig ar gyfer y sector cynradd (lle mae dewisiadau rhieni yn ymwneud yn bennaf â pha ysgol/ ffrwd i fynychu, a’r ysgol yn rheoli’r ddarpariaeth ieithyddol o’r pwynt hynny ymlaen) yn cynnig fframwaith llawer mwy sefydlog ac eglur. Byddai trefn o’r fath yn darparu sail llawer mwy cadarn a sefydlog i ysgolion ac awdurdodau lleol gynllunio yn strategol o safbwynt cynyddu addysgu drwy gyfrwng Cymraeg.

3. Eglurder i rieni

Oherwydd natur categorïau 2 a 3 yn yr uwchradd, nid ydynt yn cynnig eglurder i rieni a disgyblion. Y rheswm am hyn yw bod y categorïau yn hynod eang ac amwys. Gall dwy ysgol yn yr un categori fod yn gwbl wahanol o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac o’r herwydd eu hethos ieithyddol. Mae natur y categorïau hefyd yn golygu y gall disgyblion o fewn yr un ysgol gael profiad ieithyddol cwbl wahanol.

Mae’r problemau uchod i gyd yn deillio o’r penderfyniad i ddiffinio ysgolion uwchradd ar sail mewnbwn ac allbwn. Er bod y syniad o ganolbwyntio ar fewnbwn ac allbwn yn rhan naturiol o geisio datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nid ydym o’r farn y dylid defnyddio’r cyfuniad mewnbwn/allbwn fel rhan o ddiffiniad y categorïau. Fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymateb i gwestiwn 8, buasem yn ffafrio diffiniadau llawer cryfach a mwy eglur ar gyfer categorïau 2 a 3 uwchradd. Er enghraifft, diffiniadau sy’n dilyn y drefn gynradd i bob pwrpas. Y pwynt allweddol yw bod y categorïau yn cael eu diffinio ar sail y ddarpariaeth fydd yn cael ei darparu i bob disgybl yn yr ysgol/ffrwd/dosbarth hwnnw. Yn hytrach na defnyddio’r cysyniadau mewnbwn/allbwn i ddelio â’r ysgolion hynny na fyddai yn ffitio mewn i gategorïau cadarnach o’r fath, byddai’n rhaid galluogi ysgolion i gael eu gosod mewn mwy nag un categori, neu o bosib cyflwyno mwy o gategorïau yn y lle cyntaf.

**Cwestiwn 3** – A ydyn ni’n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy’n fwy eglur ar gyfer

(a) rhieni/gofalwyr?

| **Ydych** | ☐ | **Nac ydych** | ✓ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(b) awdurdodau lleol?

| **Ydych** | ☐ | **Nac ydych** | ✓ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(c) ysgolion?

| Ydych | ☐ | Nac ydych | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| Mae'r categorïau sy'n cael eu cynnig ar gyfer y cynradd yn fwy eglur ar gyfer rhieni, awdurdodau lleol ac ysgolion. Nid ydym o'r farn fod y categorïau uwchradd yn eglur, ac os rhywbeth maent yn fwy annelwig na'r drefn gyfredol.<br><br>Er bod ceisio lleihau nifer y categorïau yn beth cadarnhaol, nid yw o reidrwydd yn cynnig trefn fwy eglur. Credwn mai'r broblem gyda'r categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd yw bod categori 2 a 3 yn grwpio amrediad hynod eang o ysgolion gwahanol. Gall dwy ysgol o fewn categori 2 (neu o fewn categori 3) olygu rhywbeth hollol wahanol o ran darpariaeth ac ethos yr ysgol. Gall dau ddisgybl o fewn yr ysgolion hyn gael profiadau a chanlyniadau ieithyddol cwbl wahanol yn ogystal. Mae colofn 3 y tablau sy'n egluro'r categorïau yn y ddogfen ymgynghori yn nodi canlyniad ieithyddol/addysgol i ddysgwyr. Fel y mae geiriad y colofnau hyn yn ei ddangos, nid oes modd trafod canlyniad ieithyddol/addysgol ar lefel ysgol achos byddai hynny'n dibynnu'n llwyr ar yr ysgol sydd mewn golwg, a hefyd ar ddewisiadau disgyblion. Mae hyn yn mynd at wraidd diffyg eglurder y categorïau sy'n cael eu cynnig yma.<br><br>Yn ein barn ni, yr unig ffordd o allu cael 3 chategori uwchradd sydd yn darparu eglurder digonol yw drwy ddilyn trefn debyg i'r cynradd a galluogi rhai ysgolion i gael eu categoreiddio o fewn mwy nag un categori. Byddai hyn yn galluogi diffiniadau mwy eglur a chadarn ar gyfer categorïau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, tra ar yr un pryd yn cynnig trefn gategoreiddio fyddai yn gweithio i'r ysgolion hynny na fyddai yn ffitio yn naturiol mewn i un categori o'r fath. Byddai hynny yn rhoi eglurder i rieni yn ogystal wrth wneud dewisiadau ynghylch ym mha ffrwd ieithyddol y byddai eu plant. Yr opsiwn arall wrth gwrs, yw cael mwy o gategorïau uwchradd yn y lle cyntaf. |

**Cwestiwn 4** – A ydych chi'n cytuno:

(a) â'r defnydd o rifau i gategoreiddio?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

(b) â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

(c) â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

(d) â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

(e) â'r dull o wahaniaethu rhwng categoreiddio darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

**Sylwadau ychwanegol ar gwestiwn B**
Fel yr ydym eisoes wedi nodi uchod, nid yw cael llai o gategorïau o reidrwydd yn cynnig trefn fwy eglur a syml. Mae'r categorïau uwchradd 2 a 3 mor eang ac amwys fel eu bod yn colli unrhyw gydlyniad ystyrlon.

**Sylwadau ychwanegol ar gwestiwn C**
Fel rydym eisoes wedi nodi, nid yw'r drefn sy'n cael ei chynnig ar gyfer yr uwchradd yn galluogi cynnwys disgrifiadau deilliannau ieithyddol gwirioneddol ar gyfer categorïau 2 a 3. Oherwydd y drefn sy'n cael ei chynnig, mae'n rhaid cynnig disgrifiadau deilliannau ieithyddol ar gyfer carfan o ddisgyblion o fewn categori (hynny yw, y rhai sydd yn dewis manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg). Dyma yw un o brif wendidau'r cynigion o ran yr uwchradd.

Dylid nodi bod y disgrifiadau ar gyfer categori 3 uwchradd yn gamarweiniol. Mae'r geiriad yn trafod a chyfeirio at ganlyniadau addysgol/ieithyddol pob disgybl. Ond fel sy'n amlwg o'r diffiniadau mewnbwn/allbwn byddai modd i rai unigolion o fewn ysgolion categori 3 wneud mwyafrif helaeth, os nad eu holl bynciau drwy gyfrwng y Saesneg. Petai'r categori yn datgan, er enghraifft, fod pob disgybl yn derbyn 70% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, yna byddai modd trafod deilliannau ieithyddol ar lefel categori/ysgol. Os yw'r categorïau yn seiliedig ar fewnbwn, allbwn a'r trothwyon mewn canrannau ar gyfer y rhain, yna mae'n amhosib trafod deilliannau ieithyddol ar lefel categori/ysgol.

**Sylwadau ychwanegol ar gwestiwn D**
Mae rhesymau teilwng a rhesymegol dros gynnwys categorïau trosiannol, yn enwedig ar gyfer dangos ymrwymiad ysgol ac awdurdod lleol i symud categori. Er nad oes gennym farn gref ar hyn, mae'r syniad o gategorïau trosiannol yn gwneud mwy o synnwyr mewn perthynas â'r categorïau cynradd. Hynny yw, byddai'r categori trosiannol yn adlewyrchu'r broses o neidio o un categori i un arall lle bo gan y categorïau ddiffiniadau a ffiniau eithaf clir a pendant. Nid yw mor eglur beth yn union

yw pwynt a natur y categorïau trosiannol yn yr uwchradd, oherwydd mae'r syniad o symud a datblygu ar hyd continwwm eisoes yn rhan greiddiol o natur y categorïau. Dyma'r rhan o'r rheswm pam ein bod o'r farn bod y syniad o fewnbwn ac allbwn yn ddiddorol a pherthnasol fel rhan o'r broses o symud o un categori i'r llall, ond nid o reidrwydd fel rhan o ddiffiniad y categorïau eu hunain.

Er efallai ei fod yn bwynt sydd yn mynd y tu hwnt i'r ymgynghoriad penodol hwn, byddai'n ddefnyddiol ystyried yn y dyfodol pa gefnogaeth ddylai gael ei darparu i ysgolion mewn categorïau trosiannol. Os mai'r bwriad yw annog ysgolion i symud ar hyd y continwwm, yna byddai cynnig cefnogaeth arbennig i ysgolion yn hwyluso hyn. Gall hyn gynnwys cefnogaeth ariannol a mathau eraill o gefnogaeth o ran arweinyddiaeth, adnoddau, staffio, datblygu proffesiynol i staff ac yn y blaen. Byddai pecyn cefnogaeth o'r fath yn rhoi mwy o ystyr a phwrpas i'r categorïau trosiannol.

**Sylwadau ychwanegol ar gwestiwn E**
Does dim trafodaeth yn y ddogfen ymgynghori ynghylch rhesymeg y penderfyniad i gynnig trefniadau gwahanol ar gyfer y cynradd a'r uwchradd. Mae'r ddogfen yn trafod bod problemau o ran dilyniant ieithyddol yn amlygu eu hunain yn yr uwchradd yn bennaf, a gallwn hefyd ddeall bod natur darpariaeth uwchradd yn gwneud y sefyllfa yn fwy cymhleth o ran categoreiddio. Er hyn, does dim eglurhad pam fod hyn wedi arwain at y penderfyniad o gael trefn wahanol ar gyfer yr uwchradd a defnyddio'r cysyniadau o fewnbwn ac allbwn.

Fel rydym eisoes wedi'i nodi, gallwn weld rhai o'r manteision o'r drefn sy'n cael ei chynnig (yn enwedig o ran cynnig ffordd wahanol o gategoreiddio ysgolion dwy ffrwd a'r ysgolion hynny sydd yng nghategori 2a ar hyn o bryd). Er hyn, ar y cyfan rydym yn meddwl bod y problemau a'r risgiau sydd ynghlwm â threfn o'r fath yn gorbwyso'r agweddau cadarnhaol. Fel yr ydym yn ymhelaethu arno isod, rydym o'r farn y byddai dilyn trefn fwy tebyg i'r cynradd yn opsiwn gwell ar y cyfan.

**Cwestiwn 5** – Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys:

(a) canran isafswm yn unig?

| **Dylech** | ☐ | **Na ddylech** | ✓ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**neu**

(b) ystod canran isafswm ac uchafswm

| **Dylech** | ☐ | **Na ddylech** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| Nid yw’n glir os yw cwestiwn b) uchod yn golygu pennu uchafswm ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu uchafswm o ran y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. O ran pennu uchafswm ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, does dim angen. Mae’r uchafswm eisoes yn cael ei osod yng nghyswllt isafswm y categori uwchlaw, ac felly nid yw pennu uchafswm yn ychwanegu unrhyw eglurder.<br><br>Rydym o’r farn y dylai’r categorïau uwchradd bennu uchafswm o’r cwricwlwm fyddai yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer categorïau 2 a 3. Byddai hyn yn newid natur y categorïau yn llwyr, ac yn golygu bod y categorïau uwchradd yn dilyn trefn debyg i’r cynradd. Yn hytrach na cyflwyno hyn fel uchafswm drwy gyfrwng y Saesneg, ffordd well o wneud hyn fyddai pennu bod isafswm o’r cwricwlwm yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, a hynny i bob disgybl. Byddai hyn yn cael gwared â’r angen i ddiffinio ar sail mewnbwn ac allbwn. Byddai hefyd yn cael gwared â’r risgiau o ran llithro am yn ôl. O wneud hyn byddai angen hefyd galluogi rhai ysgolion uwchradd i gael eu gosod mewn mwy nag un categori. |

**Cwestiwn 6** – A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr, yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| Mae angen canllawiau penodol ar gyfer rhieni a disgyblion. Dylai’r canllawiau hyn ganolbwyntio yn benodol ar y canlyniad addysgol/ieithyddol tebygol i ddysgwyr a goblygiadau hyn o ran cyfleoedd astudio pellach drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Dylai canllawiau o’r fath hefyd drafod manteision addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithrwydd, gan rhannu wybodaeth wrthrychol am pa fath o addysg sydd fwyaf tebyg o arwain at ddatblygu sgiliau dwyieithog cryf. Dylid hefyd ystyried sut mae’r canllawiau hyn yn cael eu defnyddio a’u targedu ar gyfer cymunedau gwahanol, ac yn cyd-fynd ag ymgyrch farchnata addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.<br><br>Efallai bod gwerth ystyried llunio canllawiau ar gyfer llywodraethwyr yn ogystal. Fe allai canllawiau o’r fath egluro sut mae’r categoreiddio’n gweithio a sut dylai lywodraethwyr graffu ar gyrhaeddiad yr ysgol o fewn categori. Byddai hyn yn helpu gydag un rhan o’r broses monitro ac atebolrwydd. |

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r Canllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Fel rydym wedi egluro uchod, rydym yn pryderu bod y categorïau uwchradd yn cyflwyno risg y bydd llithro nôl o ran cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllaw arfaethedig:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Fel rydym wedi egluro eisoes, mae dau brif opsiwn arall ar gyfer y categorïau uwchradd. Naill ai gellid cyflwyno rhagor o gategorïau fyddai yn gwahaniaethu mewn mwy o fanylder rhwng mathau o ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Neu gellid dilyn trefn debyg i'r un sy'n cael ei chynnig ar gyfer ysgolion cynradd. Dyma'r opsiwn y byddem ni yn ei ffafrio, a hynny yn bennaf gan mai dyma'r drefn sy'n cael ei gynnig ar gyfer ysgolion cynradd, ac hefyd gan fod y ddogfen ymgynghori yn glir ynghylch y bwriad i gael nifer llai o gategoriau. Byddai hyn yn golygu rhywbeth fel a ganlyn:

- Categori 1: cyfrwng Saesneg
- Categori 2: Cymraeg/Saesneg – isafswm o 50% o bynciau yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg **yn unig** i bob disgybl.
- Categori 3: Cyfrwng Cymraeg – isafswm o 80% o bynciau yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg **yn unig** i bob disgybl.

Byddai modd i rai ysgolion gael eu gosod mewn mwy nag un categori. Er enghraifft, byddai modd i ysgol gynnig ffrwd cyfrwng Saesneg a ffrwd ddwyieithog. Byddai defnydd o fwy nag un categori yn ffordd o ddelio â'r ysgolion hynny sy'n gorfod gwasanaethu cymunedau lle mae disgyblion sydd eisiau addysg Gymraeg, a rhai sydd ddim yn dymuno hynny. Byddai hefyd fodd i ysgolion fod mewn mwy nag un categori fel rhan o'r broses o ddatblygu ar hyd y continwwm (e.e. drwy broses rhaeadru ffrwd newydd o flwyddyn 7 ymlaen).

Rydym yn derbyn nad yw ysgolion uwchradd dwy ffrwd yn ddatrysiad perffaith o bell ffordd, a byddai'n ddiddorol ystyried ffyrdd o sicrhau bod ysgolion dwy ffrwd yn ran o gynllun datblygu/trosiannol. Ond mae'n gamarweiniol awgrymu bod y drefn sy'n cael

ei chynnig yn y ddogfen ymgynghori yn datrys sefyllfa ysgolion dwy ffrwd. Mae'r drefn sy'n cael ei chynnig yn galluogi ysgolion dwy ffrwd i barhau i bob pwrpas. Mae'r cymhlethdod a'r problemau o ran categoreiddio ysgolion uwchradd am fod yn bresennol beth bynnag yw'r drefn sy'n cael ei mabwysiadu. Nid yw'r drefn mewnbwn/allbwn yn cael gwared â'r cymhlethdod sy'n arwain at ysgolion dwy ffrwd, nac ychwaith yn delio â sefyllfa ysgolion categori 2a a 2b ar hyn o bryd. Yn hytrach mae'n cuddio'r problemau hyn, ac yn gwneud yr holl broses yn fwy annelwig, o safbwynt rhieni ac o safbwynt monitro a chynllunio ieithyddol.

Efallai mai rhan o'r bwriad y tu ôl i'r cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd yw'r dyhead i gael fframwaith sydd yn gweithio i bob awdurdod lleol ac ysgol. O'r safbwynt hwn, mae'r drefn sydd yn cael ei chynnig yn llwyddo, oherwydd bydd mwyafrif helaeth o ysgolion yn gallu cael eu gosod yn eithaf hawdd i mewn i un o'r tri chategori. Ochr arall hyn wrth gwrs, yw'r perygl na fydd llawer yn newid o ganlyniad. Y rheswm dros ddiwygio'r categorïau yn y lle cyntaf yw oherwydd bod angen i rywbeth newid, ac er mwyn i hyn ddigwydd mae'n anorfod y bydd rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion newid ffyrdd o weithredu a chynllunio. Mae'r cymhlethdod a'r problemau sydd yn ein hwynebu o ran y sector uwchradd heddiw yn rhannol yn ganlyniad diffyg trefn eglur a thryloyw yn y gorffennol. Yn y cyd-destun hwn, efallai bod trefn gategoreiddio newydd sy'n achosi rhywfaint o anhawster yn y tymor byr, yn ran anochel o'r broses o symud at drefn fydd yn gweithio yn well yn y tymor hwy.

Fel yn achos unrhyw drefn gategoreiddio ysgolion, mae'n anorfod y bydd eithriadau anodd. Er enghraifft, efallai bod nifer o ysgolion sydd i bob pwrpas yn ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ond am resymau gwahanol fod cyflwyno 80% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg **yn unig i bob disgybl** yn amhosib. Efallai byddai modd cytuno ar drefniadau penodol i'r ysgolion hyn. Er enghraifft, efallai mai'r opsiwn gorau fyddai galluogi'r ysgolion hyn gael eu categoreiddio fel ysgol uwchradd categori 3, gan dderbyn bod trefniadau amgen yn cael eu gwneud ar gyfer carfan fechan iawn o ddisgyblion sydd ddim yn gallu dilyn 80% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith eto, byddai'n ddiddorol ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod trefniadau o'r fath yn ran o broses ddatblygu penodol.

Mae amryw mantais i'r opsiwn uchod:

- Mae'n dilyn y drefn ar gyfer y cynradd, ac felly yn fwy syml a chyson
- Mae'n galluogi diffiniadau llawer cliriach a mwy cadarn o addysg ddwyieithog ac addysg cyfrwng Cymraeg
- Oherwydd bod y categorïau yn fwy cadarn ac eglur, bydd yn drefn llawer haws i'w deall gan rieni a disgyblion
- Mae'n gosod sail llawer cryfach o ran cynllunio ieithyddol, boed hynny ar lefel ysgol, awdurdod lleol, neu yn genedlaethol. Hynny yw, bydd cynyddu nifer y disgyblion sydd mewn ysgol neu ffrwd benodol yn golygu rhywbeth pendant o ran deilliannau ieithyddol y dysgwyr. Bydd hefyd yn hwyluso'r broses o gydlynu cynlluniau ar gyfer ysgolion cynradd at bwrpas cynllunio a datblygu darpariaeth uwchradd.
- Mae'n gosod trefn llawer mwy eglur a chadarn ar gyfer monitro a sicrhau nad yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn llithro am yn ôl. Mae'r syniad o beidio â llithro nol yn rhan annatod o'r diffiniadau.
- Mae'n darparu trefn fwy sefydlog i ysgolion ar gyfer cynllunio darpariaeth a

staff. Ni fydd y drefn hon yn ddibynnol ar ddewisiadau disgyblion a rhieni o flwyddyn i flwyddyn, a bydd modd felly cynllunio yn fwy effeithiol yn y tymor hwy.
- Mae’r drefn hon yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar hyd a lled Cymru, ond mae’n ffurfioli hynny.
- Mae’n cynnig trefn fyddai’n llawer symlach i’w gweithredu o safbwynt ymarferol, lle na fydd angen cyfrifo canrannau mewnbwn ac allbwn ar lefel ysgol.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Diffiniadau cyfrwng Saesneg**

Mae rhywfaint o anghysondeb rhwng disgrifiadau o ganlyniadau addysgol/ieithyddol i ddysgwyr sy’n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi y bydd 50% o ddisgyblion y sector addysg cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er hyn, mae’r disgrifiadau o ran canlyniad addysgol ieithyddol ar gyfer y categorïau cyfrwng Saesneg cynradd yn nodi mai ‘peth dealltwriaeth o’r Gymraeg’ fydd gan ddisgyblion. Mae’r disgrifiadau ychydig yn gryfach ar gyfer y sector uwchradd lle mae dysgwyr fod wedi ‘datblygu digon o sgiliau Cymraeg i gyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau penodol’. Dylid nodi hefyd nad yw disgrifiadau ar gyfer categorïau 2 a 3 yn nodi dim ynghylch sgiliau Cymraeg y disgyblion hynny sydd ddim yn dilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn gyffredinol, nid ydym wedi ein hargyhoeddi fod gofynion y categorïau cyfrwng Saesneg, yn enwedig mewn perthynas â gofynion cyffredinol y cwricwlwm newydd, yn debygol o arwain at y deilliannau ieithyddol a ragwelir yn strategaeth Cymraeg 2050.

**Effaith ar addysg chweched dosbarth a dilyniant i addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg**

Fel rydym eisoes wedi crybwyll, rydym yn pryderu gall y cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd olygu bod llai o ddisgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wrth nesáu at gyfnod allweddol 4. Credwn bod natur y categorïau uwchradd yn debygol o waethygu y broblem bresennol mewn nifer o ysgolion uwchradd, sef bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gwanhau wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol. Mae’n bosibl y byddai hyn arwain at lai o ddysgwyr yn dewis astudio lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd a goblygiadau o ran dilyniant i addysg ôl-orfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai cyflwyno categorïau mwy cadarn a pendant ar gyfer ysgolion uwchradd yn osgoi y problemau hyn. Hynny yw, byddai sicrhau bod pob disgybl o fewn categori yn gorfod astudio isafswm o’r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy tebygol o arwain at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynaliadwy. Byddai hyn yn sicrhau gwell dilyniant yn

sgiliau Cymraeg disgyblion, ac felly yn cefnogi amcanion y Llywodraeth o ran cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n derbyn addysg ôl orfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐